EISTEDDFOD

Polisi Ffilmio, Darlledu a'r We Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn croesawu sylw i'n gŵyl unigryw gan y wasg a'r cyfryngau, ac rydym yn gwneud ein gorau i gytuno i geisiadau lle bo'n bosibl. Ond, mae gan yr Eisteddfod bolisi mynediad i'r wasg a'r cyfryngau, ac mae'r polisi hwn yn cynnwys ffotograffiaeth, ac mae angen darllen yr isod cyn gwneud unrhyw gais i ddarlledu neu ffilmio.

Partner darlledu'r Eisteddfod yw'r BBC sy'n darlledu ar deledu, radio ac ar-lein yn ystod ac yn dilyn wythnos yr Eisteddfod.

Byddwn yn cytuno i geisiadau penodol i ffilmio pan allwn ddod i gytundeb ar natur y ffilmio a'r defnydd o'r recordiad yn y pendraw. Byddwn yn edrych ar bob cais yn unigol, a dylid cysylltu â Betsan Moses gydag unrhyw gais, betsan@eisteddfod.cymru.

Byddwn yn codi ffi am ddefnydd o unrhyw un o'n hadeiladau / lleoliadau a bydd y ffi hon yn ddyledus cyn cychwyn ar unrhyw waith ffilmio.

Cysylltwch â Gwenllïan Carr gydag unrhyw geisiadau am achrediad newyddion, gwenllian@eisteddfod.cymru.

Nodwch os gwelwch yn dda:

- Ni ellir ffilmio na thynnu lluniau ar gyfer defnydd masnachol ar y Maes heb gytundeb ymlaen llaw
- Eiddo'r Eisteddfod yw hawliau rhyngrwyd / gwe-ddarlledu'r ŵyl. Mae'n rhaid cael cytundeb ar gyfer unrhyw we-ddarlledu byw o'r Eisteddfod ymlaen llaw
- Ni ellir recordio unrhyw berfformiad byw heb gytundeb clir yr Eisteddfod ymlaen llaw. Hyd yn oed os ceir cytundeb, yn aml, bydd angen caniatâd yr artist hefyd
- Mae'n rhaid cyfyngu ar nifer eich criw a sicrhau eich bod yn sensitif i'n hymwelwyr a'u preifatrwydd. Mae'n rhaid cael yswiriant cyhoeddus a rhwymedigaeth cyflogwr llawn. Bydd rhaid darparu copi o dystysgrif yswiriant ymlaen llaw (drwy e-bost at betsan@eisteddfod.cymru)
- Fel arfer, bydd unrhyw hawliau a ganiateir ar gyfer rhaglen benodol yn unig, ynghyd â'r darllediadau a drafodir gyda'r Eisteddfod. Mae'n rhaid talu ffi am ffilmio ar y Maes
- Os ydych yn berfformiwr, bydd angen cadarnhad penodol ar gyfer ffilmio rhaglenni dogfen neu raglen arall neu fideo hyrwyddo. Bydd angen dod i gytundeb masnachol gyda'r Eisteddfod os ydych yn creu deunydd at ddefnydd masnachol, er enghraifft, DVDs, CDs neu lawr lwythiadau
- Mae hedfan neu ffilmio gyda cherbydau awyr di-griw (UAVs neu dronau) wedi'i wahardd ar Faes yr Eisteddfod cyn, yn ystod ac ar ôl yr ŵyl – ac wedi'i wahardd drwy gyfraith gwlad. Mae'r Maes yn safle gwaith ac mae diogelwch ein hymwelwyr, criwiau a staff yn hollbwysig i ni

## Deunydd archif

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n rheoli archif yr Eisteddfod. Cysylltwch gyda copi@llgc.org.uk am wybodaeth os hoffech ddefnyddio clipiau o'r archif.